

Hawdd ei ddeall



Comisiynydd
Cenedlaethau'r
Dyfodol
Cymru

Future
Generations
Commissioner
for Wales

Trin pobl yn deg ac yn gyfartal yng Nghymru'r dyfodol

Y pethau y mae arnon ni angen eu gwneud



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Anghydraddoldeb yng Nghymru'r Dyfodol: Mannau gweithredu mewn gwaith, hinsawdd a newid demograffaid'.

Medi 2021

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon



Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y bydd arnoch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai y bydd geiriau mewn ysgrifennu glas trwm yn anodd i'w deall. Gallwch edrych beth mae'r holl eiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 11**.



Lle mae'r ddogfen yn dweud fi, mae hyn yn golygu Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â

Cyfeiriad:

Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r
Dyfodol Cymru
Siambrau'r Farchnad
5-7 Stryd y Santes Fair
Caerdydd, CF10 1AT



Gwefan: www.cenedlaethaurdyfodol.cymru



E-bost: cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.ymru

Ffôn: 02921 677 400



Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan Hawdd ei Ddeall Cymru gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, [cliciwch yma](#).

Cynnwys

Cyflwyniad.....	4
Gwaith.....	5
Newid hinsawdd.....	7
Poblogaeth sy'n newid.....	8
Dweud eich dweud.....	10
Geiriau anodd.....	11

Cyflwyniad



Mae'r ddogfen hon ynglŷn ag ymchwil sy'n edrych ar ddyfodol Cymru a manau lle mae'n bosibl nad yw pobl yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal.

Mae tair man bwysig i ganolbwyntio arnyn nhw:



- Gwaith



- Yr amgylchedd



- Poblogaeth sy'n newid



Mae llawer o wahaniaeth yn barod ynghylch faint o arian sydd gan bobl. Ac mae'n rhaid i ni feddwl am effeithiau COVID-19.

Gwaith

Yr hyn y daethon ni i wybod:



- Bydd gwahaniaethau mawr yn dal i fod o ran faint o arian sydd gan bobl os na fydd rhywbeth yn cael ei wneud



- Os byddwn ni'n dal ati i ysgrifennu polisiau yn yr un ffordd, bydd pobl yn dal i gael eu trin yn annheg
- Mae arnon ni angen gwneud yn siŵr bod polisiau sy'n sicrhau bod pobl yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal yn cael eu hysgrifennu.



Yn y dyfodol rydyn ni'n meddwl y bydd llawer o ddatblygiadau mewn pethau fel gwyddoniaeth a thechnoleg.

Ond rydyn ni'n meddwl nad oes digon o bobl o gefndiroedd **amrywiaethol** yn gweithio yn y meysydd hyn. Felly fe fyddan nhw'n annheg.



Mae **amrywiaethol** yn meddwl nad ydyn ni i gyd yr un fath. Er enghraifft mae pobl yng Nghymru:

Yn dod o wahanol gefndiroedd a diwylliannau

Â gwahanol alluoedd

Yn credu gwahanol bethau

Â gwahanol hunaniaethau rhywiol

Yn gwneud gwahanol ddewisiadau ynglŷn â'r ffordd maen nhw'n byw eu bywydau

O wahanol oedrannau.



Mae arnon ni angen meddwl am swyddi yn y dyfodol a sut i wneud yn siŵr bod ganddyn nhw weithwyr **amrywiaethol**.



Er enghraifft, trwy wneud yn siŵr bod pobl yn medru cael mynediad teg at hyfforddiant neu gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw.

Newid hinsawdd



Mae pobl mewn cymdeithas sydd â'r lleiaf o arian yn achosi'r lleiaf o niwed i'r amgylchedd.



Ond mae pobl dlotach yn fwy tebygol o gael profiad o **effeithiau** newid hinsawdd.

Y pethau sydd arnon ni angen eu gwneud:



- Ei gwneud hi'n haws defnyddio cludiant cyhoeddus, cerdded, seiclo a defnyddio cerbydau trydan.
- Gwneud yn siŵr bod **tai cymdeithasol** yn ecogyfeillgar.



Mae **tai cymdeithasol** yn meddwl tai y mae'r cyngor neu gymdeithasau tai yn berchen arnyn nhw.



- Mae ar fwyd iach angen bod yn fforddiadwy.
- Mae ar ardaloedd tlotach angen mwy o fannau gwyrdd o safon uchel.



Poblogaeth sy'n newid



Mae pobl yn byw yn hirach ac felly yn y dyfodol bydd llawer mwy o bobl hŷn.



Mae hyn yn meddwl y bydd mwy o angen am wasanaethau gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol.



Os bydd pobl yn gweithio'n hirach efallai y bydd llai o gyfleoedd ar gyfer pobl ifainc.



Bydd arnon ni angen meddwl am anghenion pobl hŷn a phobl ifainc.



Mae pobl ifainc yn llawer tlotach nag oedden nhw bum mlynedd yn ôl.



Mae pobl hŷn yn fwy tebygol o gael eu trin yn annheg.



Mae pobl hŷn a phobl ifainc yn cael profiad o unigrwydd.



Mae arnon ni angen meddwl am bethau fel gofal plant ac anghenion gofal pobl hŷn. Mae'r rhain yn bwysig iawn ar gyfer llesiant y gymdeithas gyfan.



Dweud eich dweud



Os oes syniadau gyda chi am y ddogfen hon, rhowch wybod i ni.

Gallwch chi gysylltu â ni trwy:

Cyfeiriad: Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Siambrau'r Farchnad
5-7 Stryd y Santes Fair
Caerdydd, CF10 1AT



Ffôn: 02921 677 400



E-bost: cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru

Geiriau anodd

Amrywiaethol

Mae amrywiaethol yn meddwl nad ydyn ni i gyd yr un fath. Er enghraifft, mae pobl yng Nghymru:

Yn dod o wahanol gefndiroedd a diwylliannau

Â gwahanol alluoedd

Yn credu gwahanol bethau

Â gwahanol hunaniaethau rhywiol

Yn gwneud gwahanol ddewisiadau ynglŷn â'r ffordd maen nhw'n byw eu bywydau

O wahanol oedrannau.

Tai cymdeithasol

Mae hyn yn meddwl tai y mae'r cyngor neu gymdeithasau tai yn berchen arnyn nhw.